

## Sut allaf fi gael eiriolwr neu gael mwy o wybodaeth?

Fe alltet siarad gyda dy deulu, yr ysgol, dy weithiwr ieuencid neu dy weithiwr cymdeithasol ynglŷn â chael eiriolwr annibynnol.

Fe alltet hefyd gysylltu â SNAP Cymru yn uniongyrchol a siarad gyda Swyddog Teulu a Phobl Ifanc. Maen nhw wir yn deall Anghenion Addysgol Arbennig a sut mae'r system yn gweithio! Gallant dy helpu i ddeall gwybodaeth a sicrhau bod pobl yn gwranddo ar dy ddymuniadau a'th farn.



## Pryd alltet ti fod eisiau defnyddio eiriolwr?

- ✓ Os wyt eisiau help, gwybodaeth neu gyngor
- ✓ Os wyt yn teimlo nad oes neb yn gwranddo ar dy farn a dy fod eisiau rhywun ar dy ochr di
- ✓ Os nad wyt yn hapus gyda'r ffordd rwyf ti'n cael gofal
- ✓ Os wyt yn ddiog neu'n anhapus ynglŷn â rhywbeth sy'n digwydd iti
- ✓ Os wyt yn teimlo na chefaist dy drin yn deg
- ✓ Os nad oes neb yn dweud wrthyf beth sy'n digwydd ynglŷn â dy sefyllfa
- ✓ Os gwneir penderfyniadau amdanat hebod ti
- ✓ Dy helpu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ac adolygiadau
- ✓ Efallai y bydd arnat eisiau help i wneud penderfyniadau ar adegau o newid pan wyt yn symud o un ysgol i'r llall
- ✓ Os wyt eisiau gwneud cwyn, honiad o wahaniaethu, neu apêl i dribiwnlys ac angen **Cyfaill Achos**



## Dweud eich dweud!!!



## Eiriolaeth Annibynnol

Gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc



*Mae gennynt hawl cael pobl i wrando arnot a chymryd dy safbwyntiau o ddifri, ond weithiau gall fod yn anodd dweud sut wyt ti'n teimlo. Gallwn dy helpu drwy drefnu eiriolwr, sef oedolyn a all roi iti'r help y mae arnat ei angen i sicrhau dy fod yn cael gwrandawriad.*

Os oes gennynt anghenion ychwanegol, anabledd, mae llawer o bethau'n cael eu 'gwneud i ti' neu 'drosot ti', pethau yr hoffet roi dy farn amdanynt. Bydd eiriolwr yn sicrhau bod pawb yn gwybod sut wyt ti'n teimlo. Mae SNAP Cymru yn eithaf gwybodus am bethau fel hyn ac mae ein staff yn onest ac yn hawdd siarad â nhw.

Darluniau gan wirfoddolwr Estelle Jones 15 oed o Wynedd

## *Felly, beth fydd eiriolwr yn ei wneud?*

- ✓ Yn dy helpu i siarad drosot dy hun neu'n siarad ar dy ran os dyna wyt ti eisiau
- ✓ Yn gwrando ar dy bryderon ac yn dy helpu i weithredu arnynt
- ✓ Bydd yn agored ac yn onest gyda ti
- ✓ Yn dy helpu i herio penderfyniadau
- ✓ Yn dy helpu i baratoi am gyfarfodydd
- ✓ Yn esbonio wrth oedolion sut wyt ti'n teimlo
- ✓ Yn esbonio wrthyt beth sy'n digwydd a beth fydd yn digwydd
- ✓ Yn dy helpu i ddelio â phroblem os wyt yn meddwl **gwneud cwyn, honiad o wahaniaethu**, neu **apêl**

*Nid yw eiriolwr o anghenraid yn gwneud pethau'n well. Efallai y bydd rhai pethau na ellir eu newid, ond bydd yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod sut wyt ti'n teimlo ac yn dy helpu i ddeall pam bod y penderfyniad wedi'i wneud.*

## *Beth am gysylltu â ni...*

*mae am ddim, yn annibynnol a diogel!*



**Llinell Gymorth**

**0808 801 0608**

**helpline@snapcymru.org**

**www.snapcymru.org**



**SQM**

Rhif elusen gofrestredig 1027599 / Cwmni cyf. Rhif 2832114